OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1781 (Cy.170)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

# Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Gorffennaf 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *9 Gorffennaf 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Gorffennaf 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 84 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2010. Mae'n gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 30 Gorffennaf 2010.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:—

ystyr "safle cynhyrchu" ("*production site*") yw mangre lle mae dofednod yn cael eu cadw at ddibenion bridio, magu, pesgi neu gynhyrchu wyau ac sy'n destun cais o dan Orchymyn Compartmentau Dofednod (Cymru) 2010; ac

ystyr "safle gweinyddol" ("*administrative site*") yw mangre lle mae dogfennau neu gofnodion sy'n ymwneud â safle cynhyrchu yn cael eu cadw.

**Ffioedd**

**3.** Mae'r ffioedd ar gyfer arolygiadau yn rhinwedd Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Cymru) 2010(**2**) a osodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn daladwy i Weinidogion Cymru gan y ceisydd o fewn 30 o ddiwrnodau o'r arolygiad.

(**1**) 1981 p. 22. Mae swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Minister" a "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38) drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), trosglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2010/1780 (Cy.169).

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru.

8 Gorffennaf 2010

## YR ATODLEN

Erthygl 2

| *Gweithgaredd* | *Ffi* |
|---|---|
| Y diwrnod cyntaf neu ran o ddiwrnod arolygiad ar safle gweinyddol | £1,400 + TAW |
| Pob diwrnod ychwanegol neu ran o ddiwrnod ar safle gweinyddol | £1,000 + TAW |
| Arolygiad safle cynhyrchu | £1,000 + TAW |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer talu ffioedd am arolygiadau o ran ceisiadau ar gyfer cydnabyddiaeth yn gompartment o dan Orchymyn Compartmentau Dofednod (Cymru) 2010. Mae'r Gorchymyn hwnnw yn gweithredu Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 616/2009 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cydnabod compartmentau dofednod sy'n bodloni safonau uchel mewn bioddiogelwch (OJ Rhif L 181, 14.7.2009, t. 16).

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio ar gyfer yr offeryn hwn.